Blaenoriaethau Ysgol Dyffryn Conwy

2022-2025



EIN BLAENORIAETH YW ARWAIN YR YSGOL I RAGORIAETH DRWY:

1) DYSGU

1.1 Ymateb i ofynion asesu 2023 ar gyfer dysgwyr CA4 a CA5 wrth baratoi'n drylwyr i gyflwyno cyrsiau TGAU a Safon Uwch diwygiedig. (JLR)

1.2 Parhau gyda ffocws glir ar ddatblygu sgiliau Llythrennedd, Rhifedd a Chymhwysedd Digidiol dysgwyr yn benodol wrth gynllunio ar gyfer Cwricwlwm i Gymru. (EG)

1.3 Cynllunio, gweithredu ac adolygu ymyraethau addas ymhob cyfnod allweddol er mwyn sicrhau cynnydd disgwyliedig grwpiau penodol o ddysgwyr. (EG/ JLR)

2) LLES AC AGWEDDAU AT DDYSGU

2.1 Parhau i ddatblygu strategaethau gwella presenoldeb er mwyn sicrhau'r gefnogaeth ac anogaeth gorau i ddysgwyr. (RB)

2.2 Cryfhau strategaethau llais y dysgwr er mwyn sicrhau bod barn dysgwyr yn ganolog i ddatblygiadau ymhob agwedd o fywyd a gwaith yr ysgol. (RRJ)

2.3 Datblygu systemau gwobrwyo a gweithredu ar fynnu'r safonau uchaf mewn perthynas ag ymddygiad drwy wneud defnydd effeithiol o Class Charts er mwyn sicrhau amgylchedd lle mae pob dysgwr yn rhydd o unrhyw aflonyddwch. (RB)

3) ADDYSGU A PHROFIADAU DYSGU

3.1 Parhau i ddatblygu strategaethau addysgu a dysgu effeithiol gyda ffocws ar lefel yr her, gwahaniaethu, asesu a phedagogaeth er mwyn rhoi'r cyfle gorau i ddysgwyr gyflawni eu potensial. (EG)

3.2 Parhau i gryfhau darpariaeth trochi CA2-3 yr Ysgol drwy gydweithio effeithiol gyda'r clwstwr er mwyn sicrhau bod sgiliau iethyddol dwyieithog y dysgwyr yn gadarn wrth drosglwyddo. (OGD)

3.3 Parhau i rymuso gweithdrefnau cefnogi Athrawon Pontio Cynradd – Uwchradd ac Athrawon Cysylltiol sydd yn cael eu lleoli yn yr Ysgol er mwyn cynnal a sicrhau'r safonau uchaf o ran addysgu a dysgu. (TC)

4) GOFAL, CYMORTH AC ARWEINIAD

4.1 Parhau i ddatblygu prosesau cyflwyno'r Bill ADY newydd yn effeithol ac effeithlon er mwyn rhoi'r cyfle gorau i ddysgwyr gyflawni eu potensial. (RE)

4.2 Sicrhau bod dysgwyr, rhieni, gofalwyr, staff a llywodraethwyr yn cydweithio er mwyn gwella lles emosiynol gan ystyried anghenion y gymuned. (JT)

5) ARWEINYDDIAETH A RHEOLAETH

5.1 Sicrhau cysondeb ym mhrosesau gwarantu ansawdd ar bob lefel fel eu bod yn arwain at godi safonau dysgwyr. (JT)

5.2 Parhau i rymuso arweinwyr rhagorol sy'n ffocysu'n glir ar safonau er mwyn cynnig y cyfle orau i ddysgwyr gyflawni eu potensial. (JT)

5.3 Parhau i ddatblygu rôl y corff Llywodraethol a'u cyswllt gyda arweinwyr ar draws yr ysgol er mwyn sicrhau eu bod yn chwarae rhan allweddol yn natblygiad yr ysgol wrth gynnig her a chefnogaeth. (OGD)

5.4 Datblygu a gwreiddio diwylliant o 'hyfforddi' (coaching) ar bob lefel. (OGD)

GYDA'N GILYDD CYRHAEDDWN EIN POTENSIAL